
PEIDIWCH BYTH Â CHYMRYD LLWYBR UNION AR DRAWS Y TRACIAU
Mae rhai rheiliau'n cludo trydan foltedd uchel sy'n ddigon pwerus i achosi anafiadau difrifol, llosgiadau ofnadwy neu waeth.
DIM AIL GYFLE

Y LLWYBR UNION YN EDRYCH YN FWY CYFLEUS? A YW HI WERTH Y RISG?

Nag yw. Gall y canlyniadau newid eich bywyd neu waeth.

Efallai eich bod chi'n adnabod yr ardal. Efallai eich bod chi wedi croesi yno o'r blaen. Ond tresmasu yw camu ar y rheilffordd unrhyw le heblaw croesfan ddynodedig – hyd yn oed os ydych chi'n estyn rhywbeth a ollyngoch.

Gall cymryd llwybr union ar draws y traciau achosi anafiadau catastroffig neu'ch lladd. A gallwch wynebu dirwy a chofnod troseddol.

Peidiwch byth â chymryd llwybr union ar draws y rheilffordd.

NID YW'R PERYGLON YN AMLWG BOB AMSER.

Trenau

- Gall trenau deithio ar gyflymder o hyd at **125mya.**
- Gall trenau modern fod llawer yn dawelach nag y tybiwch.
- Mae trenau'n rhedeg ar unrhyw adeg, gan gynnwys gwasanaethau cludo nwyddau a gwasanaethau trwodd nad ydynt yn ymddangos ar amserlenni i deithwyr.
- Nid yw trenau'n gallu troi ac mae'n gallu cymryd hyd at filltir iddynt stopio. Hyd yn oed os yw'r gyrrwr yn eich gweld, gallai fod yn rhy hwyr.

Trydan

- Mae rheilen y rheilffordd yn cludo **750 o foltiau.** Gallech fynd yn sownd yn ei gafael wrth sefyll arni.
- Does dim angen ichi gyffwrdd â'r llinell uwchben i gael anaf difrifol – gall trydan arcio trwy'r awyr.
- Gall sioc drydanol achosi llosgiadau catastroffig, anafiadau sy'n newid bywyd, neu fod yn angheuol.
- Os yw rhywun yn cyffwrdd yn y rheilen drydan, **peidiwch byth â'i gyffwrdd. Ffoniwch 999** yn syth.

COFIWCH

- Mae llwybr union cyflym ar draws y rheilffordd yn tresmasu.
- Nid yw bod yn gyfarwydd â'r rheilffordd yn ei wneud yn ddiogel.
- Nid yw'r ffaith nad oes trên i'w gweld yn golygu ei fod yn ddiogel.
- Defnyddiwch groesfan ddynodedig bob tro, hyd yn oed os yw'n cymryd mwy o amser.

DIM AIL GYFLE